ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FER

Sut i ddefnyddio'r rhestr wirio hon

Trwy ddefnyddio'r rhestr wirio hon, cewch olwg sydyn ar y canlynol:

- Eich cryfderau presennol
- Meysydd i'w gwella
- Meysydd nad ydynt wedi cael sylw hyd yma.

Defnyddiwch y rhestr wirio hon - ynghyd â'r trosolwg o Annog Dysgu a'r canlyniadau a phrosesau allweddol - fel sesiwn ragarweiniol a rhyngweithiol ar gyfer eich tîm, gyda chydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill.

Efallai yr hoffech wneud hyn ar eich pen eich hun i ddechrau ac wedyn siarad am y canlyniadau gyda phobl eraill.

Wrth fynd trwy'r rhestr wirio gyda'ch gilydd, efallai y byddwch yn amlygu meysydd lle mae canfyddiadau pobl o gryfderau a meysydd i'w gwella yn wahanol.

Bydd y rhestr wirio fer hefyd yn eich helpu i ganfod y meysydd lle byddwch o bosib am gyfeirio'ch ymdrech ar gyfer yr asesiad manylach.

1. POBL ***Darparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol***	**Cryfderau presennol**	**Meysydd i'w gwella**	**Meysydd nad ydym wedi rhoi sylw iddynt hyd yma**
Fel amgueddfa, archif neu lyfrgell, ydych chi'n 1.1 Cysylltu ac ymgynghori ag amrediad eang o bobl i ddatblygu cyfleoedd dysgu? 1.2 Darparu cyfleoedd i bobl ddysgu? 1.3 Ehangu'r amrediad o gyfleoedd dysgu ar gyfer cynnwys defnyddwyr newydd ac amrywiol? 1.4 Symbylu ymchwil a darganfod? 1.5 Gwerthuso canlyniadau gwasanaethau, rhaglenni a gweithgareddau?			
2. LLEFYDD ***Creu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli ac yn hygyrch***			
Fel amgueddfa, archif neu lyfrgell, ydych chi'n: 2.1 Creu amgylcheddau sy'n hybu dysgu? 2.2 Datblygu'ch staff i ddarparu cymorth i ddysgwyr? 2.3 Hyrwyddo'r amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell fel canolfan ar gyfer dysgu, ysbrydoli a mwynhau?			

3. PARTNERIAETHAU ***Llunio partneriaethau dysgu creadigol***	**Cryfderau presennol**	**Meysydd i'w gwella**	**Meysydd nad ydym wedi rhoi sylw iddynt hyd yma**
Fel amgueddfa, archif neu lyfrgell, ydych chi'n: 3.1 Pennu partneriaid posibl a manteision gweithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgu? 3.2 Gweithio gyda phartneriaid addas i gynllunio a datblygu cyfleoedd dysgu? 3.3 Gwahodd cyfraniadau gan bobl o'r tu allan i'r sefydliad i ddod â phersbectifau newydd ac ehangu amrediad ac apêl y cyfleoedd dysgu?			
4. POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD ***Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell***			
Fel amgueddfa, archif neu lyfrgell, ydych chi'n: 4.1 Canfod a cheisio dylanwadu ar gynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â dysgu? 4.2 Ymateb i gynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn eich cynlluniau a'ch blaenoriaethau? 4.3 Dangos bod eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell yn gorff dysgu trwy eich prosesau gwerthuso a datblygu staff?			